

ADRODDIAD YSGOL EIFIONYDD HYDREF 2016



Staff

Dymuniadau gorau i Miss Gwenno Gibbard a Mr. Gareth Patchett sydd wedi dechrau ar eu swyddi newydd yn dysgu Ymarfer Corff yn yr ysgol. Gobeithio y bydd y ddau yn hapus iawn yma yn Eifionydd.

Llongyfarchiadau mawr i Miss Mary Atkinson, athrawes Saesneg yn yr ysgol ar ei phriodas yn ddiweddar. Erbyn hyn mae hi'n Mrs. Mary Gwyn.

Yn dilyn cyfnod o absenoldeb cyfnod mamolaeth, braf yw croesawu Mrs. Miriam Amlyn, athrawes Addysg Grefyddol yn ôl a dymunwn yn dda i Miss.Catrin Griffiths yn ei swydd newydd.

Chwaraeon

Llongyfarchiadau i'r Tim hoci dan 16 a ddaeth yn ail yn Nhwrnament hoci dan 16 Meirionnydd a Dwyfor.



Llongyfarchiadau mawr i Cari Davies, Awen Puw, Mian Siôn a Millie Nunn Booton ar gael eu dewis ar gyfer tîm hoci dan 16oed Meirionnydd a Dwyfor. Llwyddodd tair ohonynt, sef Cari Davies, Mian Siôn a Millie Nunn Booton i fynd ymlaen i ennill eu lle yn nhîm hoci dan 16oed Gwynedd. Mae Cari eisoes yn chwarae i Gymru ac yn ymarfer gyda'r tîm yng Nghaerdydd bob yn ail benwythnos. Daliwch ati genod!



Llongyfarchiadau i dîm pêldroed bechgyn Bl.7 a llwyddodd i guro bechgyn Ysgol Tywyn o un gôl i ddim. Llwyddodd tîm merched Bl.10 i guro merched Ysgol Tywyn o saith gôl i un. Wynebodd bechgyn Bl.8 dîm bechgyn Ysgol Glan y Môr a llwyddwyd i gael buddugoliaeth gyda ciciau cosb. Bydd y timau uchod yn mynd ymlaen i ail rownd Cwpan Cymru y mis nesaf.

Ar fore braf o Hydref croesawyd tîm merched Bl.7 ac 8 o Ysgol y Moelwyn i Eifionydd. Llwyddodd merched Eifionydd i ennill o chwe gôl i un.

Dymuniadau gorau i Cassia Pike a Shannon Dukes sydd wedi cael eu dewis i gynrychioli tîm pêldroed merched dan 17oed Cymru ar gyfer gemau Ewropeaidd yn Latvia. Edrychwn ymlaen i glywed y canlyniadau o Latvia. Da iawn chi genod!

Diogelwch ar y Rheilffordd

Ymwelodd dau o heddweision Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig â'r ysgol i roi cyflwyniad i ddisgyblion Bl.7, 8 a 9 ar ddiogelwch ar y rheilffordd. Cafwyd cyflwyniad a thrafodaeth ddifyr am y rhesymau y dylai'r plant gadw draw oddi wrth y rheilffordd ac adroddwyd am ddamweiniau erchyll. Gobeithio y bydd y plant yn elwa o'r ymweliad ac yn gwneud dewisiadau doeth.

Bore Coffi Macmillan

Cynhaliwyd bore coffi hynod lwyddiannus yn yr ysgol er mwyn codi arian ar gyfer elusen Macmillan. Bu nifer fawr o'r staff yn brysur yn pobi cacennau a danteithion o bob math ar gyfer yr achlysur. Llwyddwyd i godi £146.00 ar gyfer yr elusen teilwng hwn. Diolch yn fawr i bawb a gyfranodd at lwyddiant y bore.